# **Disgrifiad Swydd:** Cymrawd Academaidd Meddyg Teulu

| | |
|---|---|
| **Cyfadran:** | Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd |
| **Adran/Pwnc:** | Meddygaeth |
| **Cyflog:** | £88,216 y flwyddyn, pro-rata i weithwyr rhan amser, ynghyd â buddion pensiwn USS (Gall Cymrodorion ddewis talu pensiwn presennol y GIG os yw'n well ganddynt) |
| **Oriau gwaith:** | Amser llawn |
| **Nifer y swyddi:** | 2 |
| **Contract:** | Rôl am gyfnod penodol o ddwy flynedd yw hon |
| **Lleoliad:** | Bydd deiliad y swydd hon yn gweithio ar Gampws Parc Singleton |

| | |
|---|---|
| **Prif Ddiben y Swydd:** | Mae'r cynllun cyffrous hwn yn gyfle gyrfa gwych i Feddygon Teulu sydd newydd gymhwyso neu rhai sefydledig sydd eisiau ennill gwybodaeth a phrofiad mewn addysg ac ymchwil feddygol. Yn ogystal, y gobaith yw y bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn ennill rhagor o gymwysterau uwch yn eu maes diddordeb. Mae'r swydd yn debygol o ddechrau ym mis Ionawr 2026, ond mae'r dyddiad dechrau'n hyblyg. **Anogir ymgeiswyr sydd eisiau ymuno â'r cynllun Cymrodoriaeth ar sail rhan-amser i gyflwyno cais.**<br>Bydd Cymrodorion Academaidd amser llawn yn gweithio yn Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe am dri diwrnod yr wythnos a dau ddiwrnod mewn Meddygfa Teulu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys neu Fwrdd Iechyd Bae Abertawe, yn darparu cymorth i feddygon teulu i wella gofal cleifion a systemau'r feddygfa. Dyrennir amser i Gymrodorion rhan-amser yn ôl eu hanghenion unigol. Er enghraifft, bydd Cymrawd sy'n gweithio 60% CALl yn y Brifysgol am ddeuddydd yr wythnos a'r diwrnod arall mewn Meddygfa Teulu.<br>Hyd y rhaglen yw dwy flynedd; Bydd y Cymrodorion yn gweithio mewn lleoliadau gwahanol am gyfnod o flwyddyn (h.y. dau leoliad yn ystod y rhaglen). Wrth ystyried pa mor wledig yw ardaloedd rhai meddygfeydd sy'n rhan o'r cynllun Cymrodoriaeth Academaidd, trafodir lleoliadau addas â'r ymgeiswyr llwyddiannus. |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | Mae'r cynllun yn gyfle gwych i glinigwyr ddatblygu gyrfa mewn:<br>• **Addysg Feddygol**. Bydd disgwyl iddynt gyfrannu at y gwaith o addysgu myfyrwyr meddygaeth, yn amgylchedd y Brifysgol a/neu yn eu lleoliad ysbyty/meddygfa teulu. Disgwylir i'r ymgeiswyr llwyddiannus arwain wrth gyflwyno cydran o'r rhaglen meddygaeth israddedig dan oruchwyliaeth.<br>• **Ymchwil academaidd.** Darperir cymorth unigol sylweddol gan staff Ysgol Feddygaeth Abertawe i sicrhau datblygiad proffesiynol a phersonol y Cymrawd. Bydd cymorth i'r ymgeiswyr llwyddiannus ddod o hyd i faes ymchwil sydd o ddiddordeb iddynt gall gael ei gefnogi gan restr helaeth o raglenni ymchwil yr Ysgol Feddygaeth.<br>Nid oes angen profiad academaidd blaenorol. Disgwylir i Gymrodorion ddatblygu cryfderau addysgu ac ymchwil, ond bydd y llwybr a ddewisir gan y Cymrawd yn seiliedig ar ei ddiddordebau ei hun.<br>Disgwylir i'r Cymrawd Academaidd fynychu a chyflwyno mewn Cynhadledd/au Feddygol/Addysg Feddygol yn ystod y ddwy flynedd, ac mae cyllid ar gael i gefnogi hyn.<br>Mae cyllid ar gael i gefnogi Cymrodorion os hoffent gwblhau cymwysterau uwch, e.e. diploma ôl-raddedig mewn addysg feddygol. |

Swansea University
Prifysgol Abertawe

## Meini Prawf y Fanyleb Person

**Meini Prawf Hanfodol**

1. Ymarferydd meddygol cymwys
2. Cofrestredig â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC)
3. Meddu ar dystysgrif Cwblhau Hyfforddiant (CCT)

**Meini Prawf Dymunol**

1. Profiad addysgu blaenorol
2. Profiad ymchwil blaenorol
3. Cyhoeddiadau
4. Tystiolaeth o ddiddordeb academaidd (e.e. swydd academaidd flaenorol, presenoldeb mewn cynadleddau, cyflwyniadau)
5. Cyflwyniadau ymchwil
6. Hanes o ddatblygu gwasanaethau ar gyfer claf
7. Y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg

## Iaith Gymraeg:

Lefel 1 – 'ychydig' – ynganu geiriau Cymraeg Gallu ateb y ffôn yn Gymraeg (bore da/pnawn da). Gallu defnyddio geiriau ac ymadroddion pob dydd syml iawn (diolch, os gwelwch yn dda,). Gallwch gyrraedd Lefel 1 drwy gwblhau cwrs hyfforddiant un awr.

Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma.

## Additional Information

**Bydd rhaid i'r ymgeiswyr llwyddiannus gael datgeliad o euogfarnau troseddol i'w gynnal drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).**

Croesewir ymholiadau anffurfiol a dylid eu cyfeirio at sylw cyfarwyddwyr y rhaglen:
Dr Jonathan Harikrishnan jonathan.harikrishnan@wales.nhs.uk
Dr Chris Horn c.r.horn@abertawe.ac.uk

Athena SWAN Silver Award — ECU Gender Charter

Stonewall Cymru Diversity Champion

HR Excellence in Research